




# Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe



# PROSPECTWS PROSPECTUS 2021-2022



# YSGOL GYMRAEG PONTARDawe



## Llawlyfr yr Ysgol School Handbook **2021-2022**

Welsh Network of Healthy School Schemes



Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru



## Cynnwys / Contents

Cynnwys / Contents .....	2
Croeso / Welcome .....	3
Gwybodaeth Ysgol / School Information .....	4
Nodau ac Amcanion / Aims and Objectives .....	5
Lleoliad yr ysgol / School Location .....	7
Y Diwrnod Ysgol ac Oriau Cyswllt / The School Day and Contact Hours .....	8
Categori leithyddol / School's Language Category .....	9
Trefniadaeth yr Ysgol / School Organisation .....	10
Gofal Bugeiliol / Pastoral Care .....	12
Disgyblaeth Ysgol / School Discipline .....	13
Cwricwlwm yr Ysgol / The School's Curriculum .....	14
Gwaith Cartref / Homework .....	18
Trefniadau ar gyfer Addysg Grefyddol / Arrangements for Religious Education .....	19
Addysg Bersonol a Chymdeithasol / Personal and Social Education .....	19
Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol / Pupils with Additional Learning Needs .....	20
Cyfle Cyfartal / Equal Opportunities .....	21
Darpariaeth Gerddorol gan Athrawon Teithiol / Peripatetic Music Provision .....	22
Addysg Ryw / Sex Education .....	22
Nodau Chwaraeon / Sporting Aims .....	23
Yfed a Bwyta'n Iach / Healthy Eating and Drinking .....	23
Gwisg Ysgol / School Uniform .....	24
Gweithgareddau Allgyrsiol / Extra Curricular Activities .....	24
Cyfleusterau Tai Bach / Toilet Facilities .....	25
Cysylltiadau â Rhieni / Parental Links .....	25
Adrodd i rieni / Reporting to parents .....	26
Polisi Derbyniadau i'r Ysgol / School Admissions Policy .....	26
Symud Ymlaen / Moving On .....	27
Polisi Ysgol ar Godi Tâl / Charging Policy .....	28
Prydlondeb, Absenoldeb a Gwyliau / Punctuality, Absence and Holidays .....	29
Diogelwch Ysgol / School Safety .....	30
Trefniadau ar gyfer Archwilio Dogfennau / Access to Documents Arrangements .....	30
Trefniadau ar gyfer gwneud Cwyn / Complaints Procedures .....	31
I Gloi / Finally .....	31
Atodiad 1 - Gwyliau'r Ysgol / Appendix 1 - School Holidays .....	32
Atodiad 2 – Gwisg Ysgol / Appendix 2 – School Uniform .....	33
Atodiad 3 - Dillad Addysg Gorfforol / Appendix 3 - Physical Education Clothing .....	35
Atodiad 4 - Crynodeb o ganlyniadau Asesiadau Athro'r Cyfnod Sylfaen 2019 .....	36
Appendix 4 – Summary of Foundation Phase Teacher Assessments 2019 .....	37
Atodiad 5 - Crynodeb o ganlyniadau Asesiadau Athro Cyfnod Allweddol 2 2019 .....	38
Appendix 5 – Summary of Key Stage 2 Teacher Assessments 2019 .....	39

## Croeso / Welcome

**Yn ystod argyfwng Covid-19 mae bywyd ysgol wedi newid yn sylweddol. Gobeithiwn y y dychwelwn at normalwydd yn fuan ac y gall pob elfen o'n prospectws ddigwydd eto.**

Ar ran staff a llywodraethwyr yr ysgol, hoffwn estyn croeso cynnes iawn i chi i'n hysgol ni. Mae hon yn ysgol â thraddodiad ac enw da, ac yr ydym ninnau fel staff a llywodraethwyr presennol yr ysgol yn ceisio ein gorau i barhau'r traddodiad hwnnw.

Ymfalchiwn yn safonau cyrhaeddiad uchel yr ysgol, ac y mae'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol hefyd yn bwysig inni, gyda'r disgylion yn profi llwyddiant mewn sawl maes.

Ein nod yw datblygu plentyn cyfan a chreu awyrgylch ddiogel, hapus a Chymreig. Drws agored sydd yn Ysgol Pontardawe a gobeithiwn y byddwch fel rhieni a gwarcheidiwaid yn manteisio ar y cyfle i ddod i'n hadnabod fel staff, i ymddiried ynom ac i ddangos diddordeb byw yn addysg eich plant ac yng ngweithgareddau'r ysgol.

Mae partneriaeth gref rhwng y cartref a'r ysgol yn rhan annatod o llwyddiant Ysgol Gymraeg Pontardawe.

Darllenwch ymlaen am wybodaeth bellach, neu cysylltwch i drefnu apwyntiad am ymweliad er mwyn i chi brofi awyrgylch a bwrlwm yr ysgol brysur hon.

## Welcome

***During the Covid-19 crisis, school life has changed significantly. We hope to return to normality soon and that all elements of our prospectus can again take place.***

*On behalf of the school's staff and Governing Body, I would like to welcome you to our school. This school has a sound reputation and a tradition of excellence, and we, as the current staff and governors seek to continue upon this tradition.*

*We take pride in the school's high standard of achievement and the wide range of extra curricular activities offered is also important to us.*

*Our aim is to develop the whole child and to create a safe, happy and Welsh environment, ensuring that our culture is safeguarded and developed for future years. At Ysgol Gymraeg Pontardawe we have an open door policy, and we trust that you, as parents / guardians, will use this opportunity of getting to know us as staff members, to trust us and to show an active interest in your child's education and in the activities provided by the school.*

*A strong bond and partnership between the home and school is essential to the success of Ysgol Gymraeg Pontardawe.*

*Please read on for further information or contact us to arrange a visit to experience the ethos of this vibrant, busy and popular school.*



Mr Martin Evans  
Pennaeth / Headteacher



Mrs Rhian Davies  
Cadeirydd Llywodraetheyr / Chair of Governors

## Gwybodaeth Ysgol / School Information

	Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe.
Cyfeiriad: <i>Address</i>	Rhodfa Alltacham, Pontardawe, Abertawe, SA8 4JX <i>Alltacham Drive, Pontardawe, Abertawe, SA8 4JX</i>
Rhif Ffôn/Ffacs: <i>Telephone / Fax No:</i>	01792 862136
E-bost: <i>Email:</i>	yggPontardawe@npt.school
Gwefan: <i>Website:</i>	<a href="http://www.npted.org/schools/primary/yggPontardawe">www.npted.org/schools/primary/yggPontardawe</a>
Awdurdod Addysg: <i>Education Authority:</i>	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot <i>Neath Port Talbot County Borough Council.</i>
Ystod Oedran y Plant: <i>Pupil Age Range:</i>	3 - 11 oed / <i>yrs old</i>
Nifer ar y Gofrestr <i>Number on Roll</i>	280 + 36 Meithrin / <i>Nursery (Medi / Sept 2021)</i>
Pennaeth: <i>Headteacher:</i>	Mr Martin Evans
Dirprwy Bennaeth: <i>Deputy Headteacher:</i>	Mr Arwel Owen
Swyddog Cyswllt Teulu / <i>Family Liaison Officer</i>	Mrs Natalie Fairburn
Cadeirydd Llywodraethwyr: <i>Chair of Governors</i>	Mrs Rhian Davies
Clerc yr Ysgol: <i>School Clerk</i>	Mrs Siân Pritchard a / <i>and Miss Elin Jones</i>
Bwrsar: <i>Bursar:</i>	Mr Huw Lewis
Clerc y Llywodraethwyr: <i>Clerk to Governors</i>	Mrs Maureen Winter

Y wybodaeth yn gywir ar adeg ei chyhoeddi.  
*All information correct at the time of print.*

## Nodau ac Amcanion / Aims and Objectives

Ein nod yw meithrin siaradwyr Cymraeg y dyfodol - dinasyddion fydd yn meddu ar hunan ddisgyblaeth, ymroddiad, parch a balchder at ein hiaith a'n hetifeddiaeth ar hyd eu bywydau. Ymrwymwn fod pob disgybl yn mwynhau addysgu a dysgu sy'n eu hysbrydoli i lwyddo, mewn cymuned addysg ddiogel, gartrefol, gydweithredol ac yn anelu at fod yn wych, lle mae potensial pob plentyn yn cael ei ddatblygu. Anogir pob aelod i gyrraedd ei lawn botensial trwy ddarparu profiadau heriol, ymestynnol fel y gall gyfrannu'n llawn ac yn hyderus i gymdeithas ddwyieithog.

Ein nod yw sicrhau fod:

- Ein holl randdeiliaid yn magu balchder yn yr iaith Gymraeg, ein diwylliant a'n cenedl.
- Awyrgylch hapus, cartrefol a diogel yn bodoli a bod pob plentyn yn cael ei annog i chwarae rôl flaenllaw a gweithredol ym mywyd yr ysgol
- Pob disgybl yn derbyn y cyfle i gyrraedd ei lawn botensial yn academaidd, yn gymdeithasol, yn gorfforol, yn ysbrydol a moesol
- Y disgybl yn ganolog i'r broses o ddysgu a bod cyfaniad pob unigolyn yn cael ei barchu.
- Pwyslais ar ddatblygu sgiliau personol megis hunan hyder, hunan fynegiant, hunan barch, parch at eraill, dyfalbarhad, sgiliau arwain a sgiliau datrys problemau o gychwyn eu hamser yn yr ysgol.
- Disgyblion wedi eu paratoi am fywyd yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif trwy ymestyn eu medrau mewn cymhwysedd digidol wrth gymhwysyo, defnyddio ac ehangu'r sgiliau yma o fewn yr ysgol gyfan a thrâ'n datblygu sgiliau ysgogol a chymdeithasol
- Cysylltiadau cryf â'r gymuned leol, a dechrau paratoi plant i fod yn oedolion cyfrifol yn eu cymunedau a datblygu'n ddinasyddion byd eang.

Ein gwerthoedd sy'n ein harwain yn ein bywyd o ddydd i ddydd yn yr ysgol.

Credwn mewn:

- balchder yn ein hiaith a'n diwylliant
- gonestrwydd, cwrtseisi a pharch at eraill
- hunan ddisgyblaeth
- disgwyliadau uchel a chyfle cyfartal i bawb
- dyfalbarhad ac ymroddiad i'n gwaith

*Datblygu pob dawn  
Ar daith drwy'r iaith*

*Our aim is to nurture Welsh speakers of the future – citizens who possess self-discipline, commitment, respect and pride in our language and our heritage throughout their lives. We are committed to ensuring that every pupil enjoys teaching and learning that inspires them to succeed in a safe, homely, cooperative community and aiming to be outstanding, where the potential of each pupil is developed. Every member is encouraged to reach their full potential through challenging and extended experiences, in order that he or she can contribute confidently to a bilingual society.*

*Our aim is to ensure that:*

- *All our stakeholders develop a sense of pride in the Welsh language, culture and our nation*
- *A happy, warm and safe environment exists and to encourage every child to play an active and prominent role in school life.*
- *All pupils receive the opportunity to develop to his or her full potential academically, socially, physically, spiritually and morally.*
- *The pupil is central to the learning process and each individual's contribution is respected.*
- *An emphasis is placed on personal skills such as self-confidence, self-expression, self-respect, respect towards others, perseverance, leadership and problem solving skills throughout their time in school.*
- *Pupils are prepared for life in the 21<sup>st</sup> century by expanding their digital competence by applying, using and extending those skills across the whole curriculum and whilst developing motivation and social skills*
- *We foster close links with the local community and begin preparing children to become responsible adults in their community and become global citizens*

*Our values lead us in our day-to-day life at school.*

*We believe in:*

- *Pride in our language and culture.*
- *Honesty, courtesy and respect for others*
- *self-discipline*
- *high expectations and equal opportunities for all*
- *perseverance and commitment to our work*


***Datblygu pob dawn  
Ar daith drwy'r iaith***

*(Developing all talents  
on the language journey)*

## Lleoliad yr ysgol / School Location

Saif yr ysgol ar safle eang, braf ar ar ben uchaf Rhodfa Alltacham. Adeilad hen ysgol gyfun Cwmtawe yw adeilad yr ysgol ac mae mewn cyflwr da. Symudwyd i'r safle hwn ym mis Medi 1999. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cael ei hadnewyddu a'i hehangu'n helaeth. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd 2021 a bydd yn darparu ystafell bwrpasol ar gyfer y Cylch Meithrin (cyn-ysgol), dosbarth Meithrin newydd sylwedol a dau ddosbarth Derbyn ychwanegol gydag ardal allanol wedi'i orchuddio. Clustnodwyd £1.6 ar gyfer y prosiect.

*The school is located in beautiful spacious surroundings at the top of Alltacham Drive. The school moved to its current location, the former Cwmtawe Comprehensive School in September 1999. The school is currently undergoing extensive refurbishment and extension. The work is scheduled for completion byd the end of 2021 and will provide a bespoke room for the Cylch Meithrin (pre-school), a new enhanced Nursery class and two further Reception classes with covered outdoor space. £1.6m has been earmarked for the project.*



## Y Diwrnod Ysgol ac Oriau Cyswllt / The School Day and Contact Hours

Diwrnod Ysgol	8:45yb – 3:15yp
Bore	8:45yb – 11:15yp (Meithrin) 8:45yb – 11:45yb (Babanod) 8:45yb – 12:00yb (lau)
Prynhawn	12:30yp - 3:00yp (Meithrin) 12:45yp – 3:00yp (Babanod) 1:00yp – 3:15yp (lau)

Mae'r staff ar ddyletswydd o 8:30yb – 12:00 ac 12:45 – 3:25yp

Mae'r amser a dreulir ar addysgu o fewn wythnos gyffredin gan gynnwys Addysg Grefyddol ond nad yw'n cynnwys gwasanaethau boreol, cofrestru ag egwyl chwarae a chinio gymesur â 22 ¼ awr i'r Adran Babanod a 23 ½ awr i'r Adran lau.



School Day	8:45am – 3:15pm
Morning	8:45am – 11:15am (Nursery) 8:45am – 11:45am (Infants) 8:45am – 12:00am (Juniors)
Afternoon	12:30pm - 3:00pm (Nursery) 12:45pm – 3:00pm (Infants) 1:00pm – 3:15pm (Juniors)

*Staff are on duty from 8:30 am – 12:00am and 12:45 – 3:25 pm*

*The hours spent on teaching during a normal school week, including Religious Education, but excluding the statutory daily act of worship, registration and breaks (including lunch) is equivalent to 22 ¼ hours for the Infant Department and 23 ½ for the Junior Department.*

## Categori leithyddol / School's Language Category

Ysgol Gynradd Gymraeg Penodedig yw Ysgol Pontardawe. Iaith swyddogol yr ysgol yw Cymraeg. Er bo' canran eithaf da o blant yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith daw nifer cynyddol o blant o gartrefi cwbl ddi-gymraeg. Erbyn i'r plant yma gyrraedd tua 5 oed maent yn ddigon profiadol i siarad yr iaith yn hyderus a naturiol. Dysgir y plant Meithrin a'r adran Babanod trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Dysgir trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn yr Adran lau ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Gymraeg fel cyfrwng dysgu. Amcan sylfaenol yr ysgol yw darparu addysg ddwyieithog i ddisgyblion fydd yn eu galluogi i ennill hyfedredd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Anelwn at feithrin yn y plant ymwybyddiaeth o Gymreictod a chariad tuag at wlad ac iaith.

### Beth yw manteision Addysg Ddwyeithog?

Mae yna nifer o fanteision:


- Mae gwaith ymchwil yn dangos fod plant sy'n medru siarad mwy nag un iaith yn gallu meddwl yn fwy creadigol a hyblyg.
- Mae gan blant dwyieithog seiliau da ar gyfer dysgu ieithoedd eraill.
- Mae bod yn ddwyieithog yn caniatáu i'ch plentyn brofi dau ddiwylliant.
- Eto, mae gwaith ymchwil yn dangos fod siarad a defnyddio dwy iaith yn gwella gallu plentyn i ddefnyddio a dysgu iaith yn gyffredinol. Mae ymchwil diweddar yn dangos fod plant sy'n derbyn addysg ddwyieithog yn dueddol o wneud yn well ar draws y Cwricwlwm – yn cynnwys yn Saesneg!

*Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe is a designated Welsh Primary School. The official school language is Welsh. Although a good percentage of children come from Welsh speaking homes and environments, more and more children from non Welsh speaking homes and backgrounds are attending the school. By the time the children are about 5 years of age they are confident and experienced enough to speak Welsh fluently and naturally. The medium of instruction in the Infant and Nursery classes is Welsh. Both Welsh and English are used as language mediums in the Junior department but much more of an emphasis is placed on the Welsh. A basic aim of the school is to provide pupils with a bilingual education, which will enable them to gain equal proficiency in both Welsh and English languages. We aim to nurture in the children a pride in their country and its traditions and a love for its language and history.*

### What are the advantages of Bilingual Education?

There are many advantages:

- Research shows that children who are able to speak more than one language are able to think more flexibly and creatively.
- Bilingual children have a good foundation for learning other languages.
- Being bilingual gives your child the opportunity to experience two cultures.
- Research shows that being able to speak and use two languages improves a child's ability to use and learn language in general. Recent results have shown that children receiving Welsh medium education tend to do better right across the curriculum – including in English!



## Trefniadaeth yr Ysgol / School Organisation

Nod yr ysgol yw rhoi'r ddarpariaeth addysgol orau i'n disgyblion. Ar hyn o bryd mae chwe ardal ddysgu yn y Cyfnod Sylfaen a chwe dosbarth lau. Rhennir yr ysgol i ddosbarthiadau o allu cymysg ac yn y rhan fwyaf o achosion i ddosbarthiadau oed cymysg, yn ôl oedran y plant. Yr ystod oed mwyaf mewn un dosbarth yw dwy flynedd. Daw plant y Meithrin i'r ysgol yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Mae sesiynau'r Meithrin yn rhai hanner diwrnod.

Polisi'r ysgol yw bo'r dysgu yn integredig a thraws gwricwlaidd. Bydd holl bynciau'r cwricwlwm yn cael eu cynnwys o dan themâu canolog. Rhoddir llawer o bwyslais ar ddysgu trwy roi amrywiaeth o brofiadau i'r plant.

*The school aims to provide the best possible education for its pupils. At present there are six Foundation Phase learning areas and six junior classes. Pupils are organised into classes of mixed ability and in most cases age determined mixed year groups. The maximum age span in each class is two years. Nursery children are admitted to school following their third birthday. Nursery children attend for half-day sessions.*

*The school's policy is that the teaching should be integrated and a cross-curricular. All curriculum subjects are delivered through a specific theme or topic. Much emphasis is placed on providing the children with a variety of experiences to enhance the learning process.*

Dosbarth / Class	Athro / Teacher
Meithrin / Nursery	Mrs Laura Evans (0.8) a Mrs Nia Jones (0.2)
Derbyn Reception	Mrs Nia Jones (0.4) a Mrs Rhian Morgan (0.6)
Derbyn Reception	Mrs Sue Jones Fowler
Blwyddyn 1 Year 1	Miss Stephanie Davies
Blwyddyn 1 a 2 Year 1 and 2	Mrs Nerys Saunders
Blwyddyn 2 Year 2	Miss Catrin Lewis
Blwyddyn 3 Year 3	Mrs Caitlin Hogarth
Blwyddyn 3 a 4 Year 3 and 4	Mrs Alice Shields (0.6) a Mrs Siân Richards (0.4)
Blwyddyn 4 a 5 Year 4 and 5	Miss Mair Davies
Blwyddyn 5 Year 5	Mr Rhys Lewis
Blwyddyn 6 Year 6	Mr Arwel Lloyd Owen
Athrawon Teithiol <i>Peripatetic Teachers</i>	Miss Katie Bayliss ( <i>Telyn / Harp</i> ) Mrs Sharon Williams ( <i>Llinynnol / Strings</i> ) Mr Wayne Pedrick ( <i>Pres / Brass</i> ) Mr Lyn Rees ( <i>Taro / Percussion</i> )

Cynorthwywyr Addysgu / <i>Teaching Assistants</i>	Miss Jeanette Burden, Miss Gemma Turner, Mrs Enfys Evans, Miss Nia Evans, Mrs Sara Evans, Mrs Helen Griffiths, Mrs Beverley Harrison, Miss Elin Jones, Mrs Siân Morgan, Mrs Ruth Rees, Miss Kayleigh West, Miss Carys Gunn, Mr Osian Jones a Miss Siwan Matthews.
Swyddog Cyswllt Teulu / <i>Family Liaison Officer</i>	Mrs Natalie Fairburn
Clercod yr Ysgol / <i>School Clerks</i>	Mrs Siân Pritchard & Miss Elin Jones
Gofalwr / <i>Caretaker</i>	Mr Kevin Lewis
Cogyddes / <i>Cook</i>	Mrs Carolyn Curran
Staff y Gegin / <i>Kitchen Staff</i>	Mrs Lynette Bray, Mrs Sharon Davies John and Mrs Nicola Hendry
Glanhawyr / <i>Cleaners</i>	Mrs J Hodge, Miss L Carmichael, Ms MJohnson & Ms K Rutkowska.
Goruchwylwyr Amser Cinio <i>Lunchtime Supervisors</i>	Mrs Heather Cox, Mrs Lynette Bray, Mrs Wendy Jackman, Ms Lisa Watkins, Ms Deleen Williams, Miss Kayleigh West, Miss Gemma Turner, Mrs Beverley Harrison, Miss Jeanette Burden, Mrs Siân Morgan, Mrs Ruth Rees, Miss Elin Jones a Miss Carys Gunn.
Clwb Brecwast <i>Breakfast Club</i>	Mrs Carolyn Curran, Mrs Lynette Bray, Mrs Sharon Davies John, Miss Gemma Turner & Miss Siwan Matthews.
Llywodraethwyr / <i>Governors</i>	<p><u>Cymunedol / Community</u>            Cyng. Garry Davies, Mr Wayne Pedrick, Mrs Emma Jones, Mrs Helen Vale &amp; Cyng. Rebeca Phillips,</p> <p><u>AALI / LEA</u>            Mr Lloyd Williams, Miss Bethan Gill a Mrs Sarah Gray (Is Gad / V Chair)</p> <p><u>Rhiant / Parent</u>            Mrs Rhian Davies (Cadeirydd / Chair), Mr Huw Lewis, Mrs Rebecca Griffiths, Mrs Danielle O'Connor &amp; Mrs Emma Miles.</p> <p><u>Staff / Staff</u>            Mrs Ruth Rees, Miss Catrin Lewis, Mrs Suzanne Jones-Fowler &amp; Mr M Evans</p> <p><u>Clerc / Clerk</u>            Mrs Maureen Winter</p>

## Gofal Bugeiliol / Pastoral Care

Mae pob athro / athrawes yn gyfrifol am y plant yn eu dosbarthiadau a'r Pennaeth â chyfrifoldeb dros y cyfan. Mae gan yr ysgol hefyd Swyddog Cyswllt Teulu sydd ar gael i rieni drafod pryderon a all godi gyda'i plant yn yr ysgol. Ceisiwn greu amgylchedd diogel tu fewn a thu allan i'r ysgol. Rydym o hyd yn monitro agweddu o iechyd a diogelwch. Mabwysiadwn agwedd ofalgar a chydymdeimladol tuag at anghenion pob plentyn o fewn awyrgylch gynnes a chartrefol.

Caiff plant eu goruchwyllo yn ystod yr awr ginio ac amseroedd chwarae. Os yw plentyn yn sâl neu os caiff ddamwain, bydd yr ysgol yn ceisio cysylltu â'r rhieni trwy ddefnyddio'r wybodaeth a dderbynir oddi wrth rieni ar y ffurflen gyswllt. Os oes angen unrhyw feddyginaeth ar blant yn ystod y dydd, yn unol â pholisi'r AALI, bydd angen cysylltu ag athro eich plentyn. Mae'n angenrheidiol hefyd, cwblhau ffurflen ganiatâd sydd ar gael o'r swyddfa. Dylid sicrhau fod y pennaeth wedi arwyddo'r ffurflen cyn gadael y feddyginaeth yn yr ysgol.

Cynhelir dril Tân yn rheolaidd. Archwilar yr offer Ymarfer Corff a cheir goruchwyliaeth gyfrifol yn ystod y gwensi hyn. O bryd i'w gilydd bydd swyddogion meddygol a deintyddol yr Awdurdod lechyd yn ymweld â'r ysgol. Dosberthir y wybodaeth angenrheidiol i rieni cyn yr ymwelliadau hyn, a chysylltir â hwy os cwyd unrhyw broblemau yn eu sgil.

Mae gan yr ysgol ELSA wedi'i hyfforddi'n llawn (Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol) i gefnogi lles emosiynol disgyblion. Gwna'r ysgol ddefnydd hefyd o wasanaethau eraill yn yr Awdurdod, megis y Gwasanaeth Seicolegol a'r Gwasanaeth Lles. Diweddarir ein Polisi Diogelu plant yn flynyddol ac y mae ar gael i rieni ar safwe'r ysgol. Y pennaeth yw'r person dynodedig a'r dirprwy yn ei absenoldeb. Y pennaeth hefyd yw'r person dynodedig ar gyfer disgyblion sy'n derbyn gofal.

### Pastoral Care

*Every class teacher is responsible for the children in his/her class with the Headteacher having overall responsibility. The school has also a Family Liaison Officer who is available for parents to discuss any concerns that they may have. We aim to create a safe environment in and around the school and continually monitor health and safety issues. We adopt a caring, compassionate attitude towards the general well-being of each pupil.*

*Children are supervised during all lunch and play breaks. If a child is ill or has an accident, the school does its utmost to contact parents by using the information given by parents on the registration form. Should pupils require medication during the day, in line with LEA Guidance, parents should liaise with the class teacher. A permission form must be completed which is available from the office or website. It is imperative that the headteacher has signed the form before medication is left at the school.*

*A fire drill exercise is held regularly. Inspection of P.E. equipment is undertaken and there is responsible supervision during these lessons. Medical and dental personnel from the Health Authority visit the school at regular intervals. Parents are given the necessary information regarding these visits and will be contacted if any problems arise.*

*The school has a fully trained ELSA (Emotional Literacy Support Assistant) to support pupils' emotional wellbeing. Close links exist with the Schools' Psychological Service, the Education Welfare Service and Social Services. The school Child Protection Policy is reviewed annually and a copy available on our website. The designated person is the headteacher and deputy in his absence. The headteacher is also the designated person for Looked after Children.*

## Disgyblaeth Ysgol / School Discipline

Gosodir pwyslais mawr ar sicrhau safonau o ymddygiad da, ystyriaeth at eraill a pharch tuag at eiddo. Cred yr ysgol bod rhieni yn gyfrifol am ymddygiad eu plant. Yn yr ysgol disgwylir i'r ymddygiad hwnnw fod yn gydnaws â disgwyliadau'r gymuned ac adlewyrchu'r safonau a'r gwerthoedd a feithrinir gan yr ysgol.

Cred yr ysgol fod gan blant yr hawl i drefn a disgyblaeth i'w galluogi i weithio'n dawel ac yn ddiogel. Y Pennaeth gyda chymorth y staff sy'n gyfrifol am ddisgyblaeth yr ysgol ac am sicrhau ymateb i reolau'r ysgol. Mae'r pwyslais ar ddatblygu hunanddisgyblaeth, fel bo trefn a gofal, yn rhan annated o ethos yr ysgol.

Yn ein hysgol mae yna bwyslais clir ar ganmol a gwobrwyd, yn hytrach na thynnu sylw at ymddygiad gwael. Serch hynny, ble bo'r angen gweinyddir cosb drwy atal breintiau, a gall y breintiau yma amrywio yn ôl diddordebau'r plentyn. Os na fydd plentyn yn ymateb i'r camau hyn, cysylltir â'r rhieni i drafod y mater gyda nhw. Er mwyn cydnabod ymddygiad da mae system wobrwyd yn bodoli yn ein hysgol sy'n pwysleisio canmoliaeth a gwobrwyd.

Mae gan yr ysgol bolisiau disgyblaeth a gwrth-fwlian. Mae copïau o'r rhain ar gael oddi wrth yr ysgol trwy gais neu ar ein safwe.

## School Discipline

*A particular emphasis is placed on standards of good behaviour, consideration for others and respect for property. The school believes that parents are responsible for the behaviour of their children, and within the school situation this behaviour must be acceptable to the community therein and reflect the values and standards expected by the school.*

*The school believes that children have a right to order and discipline to enable them to work in peace and security. The overall discipline and enforcing of school rules is the responsibility of the Headteacher with the assistance of the staff. An emphasis is placed on self-discipline, so that order and care are an integral part of the school's ethos.*

*At our school there is a clear emphasis on praise and reward, rather than drawing others' attention to unacceptable behaviour. Our good behaviour policy is clear in what behaviour is acceptable and what is not and posters are on walls around the school. Where sanctions are deemed necessary, they are usually administered through loss of privilege. This can vary according to the child's interests. If a child fails to respond, parental consultation will take place. In order to recognise and acknowledge good behaviour there is an existing rewards system at our school which places a great emphasis on praise and rewards.*

*The school has a good behaviour and anti-bullying policies. Copies can be obtained from our website or the school by request.*



## Cwricwlwm yr Ysgol / The School's Curriculum

Ymdrechwn i ddarparu ystod eang o brofiadau addysgol er mwyn diwallu anghenion pob plentyn. Rhoddir pwyslais ar brofiadau uniongyrchol i blant fel sail i'r dysgu ac mae'r cwricwlwm wedi'i greu i fod yn ddiddorol, yn ymestynnol, yn eang ac yn berthnasol. Bydd yn gwricwlwm cynhwysfawr ac yn cynnwys gofynion y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru (o 3 i 7 oed), gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol (o 7 i 11 oed) a'r Fframwaith Llythrennedd Rhifedd a Chymhwysedd Digidol. Ein nod yw y bydd y ddarpariaeth gyfan yn meithrin y plentyn fel unigolyn, yn rhoi'r cyfle iddo/iddi ddatblygu'n feddyliol ac ar yr un pryd yn datblygu ynddo/ynddi ymwybyddiaeth o gymdeithas ac o gyd-ddyn, o fydd a bywyd.

### Y Cyfnod Sylfaen

Chwe maes dysgu sy'n ffurfio cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth trwy brofiad – dysgu trwy wneud a thrwy ddatrys problemau y tu mewn ac yn yr awyr agored. Y chwe maes dysgu yw Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol, Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, Datblygiad Mathemategol, Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd, Datblygiad Corfforol a Datblygiad Creadigol.

### Y Cyfnod o 7 – 11 oed (Cyfnod Allweddol 2)

Dysgir plant o 7 i 11 oed gan gydymffurfio â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

- Pynciau Craidd - Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth
- Pynciau Sylfaen – Technoleg Gwybodaeth, Dylunio a Thechnoleg, Hanes, Daearyddiaeth, Celf, Cerddoriaeth ac Addysg Gorfforol.
- Hefyd, mae'n cynnwys Addysg Grefyddol ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh).

### Cwricwlwm Newydd 2022 – Dyfodol Llwyddiannus

Mae newidiadau mawr ar y gweill ym myd addysg Cymru yn deillio o adolygiad yr Athro Donaldson o gwricwlwm addysg Cymru a'i adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus'. Bydd y cwricwlwm newydd wedi selio ar y pedwar diben sy'n rhoi'r cyfle i bob plentyn a pherson ifanc ddatblygu i fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- yn ddinasyyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyyddion yng Nghymru a'r byd;
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

O fewn y cwricwlwm newydd bydd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn dri cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd. Rhennir y cwricwlwm yn chwe maes dysgu a phrofiad, sef celfyddydau mynegiannol, iechyd a lles, dyniaethau, llythrennedd a chyfathrebu, mathemateg a rhifedd a gwyddoniaeth a thechnoleg. Bydd y meysydd dysgu a phrofiad yma yn ymestyn o'r cyfnod sylfaen (pan fo'r plant yn 3) hyd gyfnod allweddol 4 (pan fo'r plant yn 16).

Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r ysgol wedi ei hadnabod fel 'Ysgol sy'n Arloesi'r Cwricwlwm'. Ysgol sydd wedi cydweithio gydag ysgolion arloesol eraill ar draws Cymru a swyddogion y

Ilywodraeth i gynhyrchu'r cwricwlwm newydd. Bu'n amser cyffrous ond prysur dros ben ond mae wedi ein caniatáu i chwarae'n rhan yn y broses o ddatblygu'r cwricwlwm a sicrhau fod ein disgyblion wedi elwa o'r dulliau dysgu a'r strategaethau addysgu arloesol yn gynnar iawn. Dros y cyfnod yma, mae'r ysgol wedi cychwyn addasu ei dull o gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm i ymateb i'r newidiadau fel ein bod yn fwy na pharod pan fydd yn statudol o Fedi 2022.

Mae'r ysgol wedi llwyddo i sicrhau statws 'Ysgol Arweiniol Greadigol' eto am y flwyddyn 2020-2021. Trwy'r rhaglen mae disgyblion, athrawon ac arbenigwyr creadigol yn cydweithio ar brosiectau. Mae'r broses gydweithredol hon yn hybu amgylchedd addysgu lle mae pwyslais ar ddisgyblion ofyn cwestiynau a gwneud penderfyniadau am eu haddysg, tra hefyd yn bywiogi'r cwricwlwm.

Ymhyfrydw yn y berthynas agos sydd rhwng yr ysgol ag Academi Addysg Awyr Agored Glanrafon. Yn wythnosol, mae dosbarth o ddisgyblion yn treulio diwrnod cyfan yn y ganolfan. Bwriad yr ymweliadau yw codi ymwybyddiaeth disgyblion o'u hamgylchedd ac i ymgysylltu â'i gilydd yn yr awyr agored trwy gyd-weithio a chyd-ymchwilio i ddatrys problemau a gwella eu sgiliau cymdeithasol a lles.

### Asesu

- Asesir plant yn statudol o fewn chwe wythnos o ddechrau ysgol yn y dosbarth Meithrin, er mwyn sefydlu eu man cychwyn.
- Asesir hwy yn ffurfiol ar gychwyn eu hamser yn y dosbarth derbyn.
- Ceir asesiadau statudol pellach ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 7 oed.
- Asesir disgyblion yn ffurfiannol drwy brofion darllen a rhifedd blynnyddol o flwyddyn 2 i flwyddyn 6.
- Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae asesiadau athrawon statudol diwedd y Cyfnod Allweddol yn cofnodi cyrhaeddiad disgyblion.

We endeavour to provide a wide range of educational experiences to meet the individual needs of every child. Emphasis is placed on giving children direct experiences as stimuli to the learning process. Our aim is that the curriculum is interesting, broad and relevant. The content of the curriculum is comprehensive and responds to the requirements of the Foundation Phase in Wales (3 – 7 year olds), the National Curriculum (7 - 11 year olds) and the Literacy and Numeracy Frameworks. The curriculum nurtures the child as an individual, and gives him/her the opportunity to develop intellectually and at the same time develop awareness of community and fellow man, of the world and of life.

### The Foundation Phase

There are six areas of learning that form the Foundation Phase Curriculum. Emphasis has been placed on developing children's knowledge, skills and understanding through experiential learning – learning by doing and solving real life problems both inside and outside the classroom. The six areas of learning are Personal and Social Development, Well Being and Cultural Diversity, Language, Literacy and Communication Skills, Mathematical Development Knowledge and Understanding of the World, Physical Development and Creative Development.

### The Primary Phase for 7 – 11 year olds (Key Stage 2)

Children from 7 to 11 are taught according to the requirements of the National Curriculum.

- Core Subjects – Welsh, English, Mathematics and Science
- Foundation Subjects – Information Technology, Design and Technology, History, Geography, Art, Music and Physical Education
- It also consists of Religious Education and Personal and Social Education (PSE)

### New Curriculum 2022 - Successful Futures

Major changes are planned in Welsh education arising from Professor Donaldson's review of the Welsh education curriculum and his 'Successful Futures' report. The new curriculum is based on the following four purposes ensuring that all children and young people will be:

- Ambitious, capable learners who are ready to learn throughout their lives.
- Enterprising, creative contributors who are ready to play a full part in life and work.
- Ethical, informed citizens who are ready to be citizens of Wales and the world.
- Healthy, confident individuals who are ready to lead fulfilling lives as valued members of society.

Within the new curriculum, literacy, numeracy and digital competence will be three cross-curricular responsibilities. The curriculum is divided into six areas of learning and experience, namely expressive arts, health and wellbeing, humanities, literacy and communication, mathematics and numeracy and science and technology. These areas of learning and experience will extend from the foundation phase (when children are 3) to key stage 4 (when the children are 16).

Over the past three years, the school has been identified as a 'Curriculum Pioneer School'. A school that has collaborated with other innovative schools across Wales and government officials to develop the new curriculum. It has been an exciting but busy time and has permitted us to play our part in curriculum development and ensure that our pupils have benefited from the innovative teaching methods and strategies at an early stage. Over this period, the school

*has adapted its approach to curriculum planning and implementation to respond to the changes so that we will be more than ready when it becomes statutory from September 2022.*

*The school has again achieved 'Lead Creative School' status for the year 2020-2021. Through the program pupils, teachers and creative experts work together on projects. This collaborative process promotes a teaching environment where there is an emphasis on pupils asking questions and making decisions about their education, while also enrichening the curriculum.*

*We are also proud of the close relationship that exists between the school and Glanrafon Outdoor Education Academy. On a weekly basis, two classes of pupils spend a whole day at the centre. The aim of the visits is to raise pupils' awareness of their environment and to engage with each other in the outdoors through collaboration and problem solving and improving their social skills and wellbeing.*

### Assessment

- *Pupils are statutorily assessed within the first six weeks of starting school in the Nursery class.*
- *They are further assessed on commencing the reception class.*
- *There are further statutory assessments at the end of the Foundation Phase.*
- *Pupils are formatively assessed through annual reading and numeracy tests from years 2 to 6.*
- *At Key Stage 2, statutory teacher assessments are used to record pupils' attainment at the end of KS2.*

## Gwaith Cartref / Homework

Mae gwaith cartref yn chwarae rhan mewn atgyfnerthu ac adolygu gwaith dosbarth. Yn gyffredinol, fe fydd gwaith cartref yn ymestyniad o weithgareddau'r dosbarth - yn atgyfnerthu ac ymestyn agweddau o waith a ddaethpwyd ar eu traws yn ystod oriau ysgol. Mae gwaith cartref ystyrlon yn cymell plant i weithio'n annibynnol.

Gall tasgau gwaith cartref fod yn amrywiol eu natur: dysgu ar gof, darllen, ysgrifennu, mathemateg, gwaith ymchwil, ac ati. Gofynnir i rieni helpu eu plant drwy roi'r cyfle a'r anogaeth iddynt i astudio gartref.

Rydym yn annog plant i fynd â'u llyfrau darllen a'u llyfrau cofnod darllen adref ar bob cyfle, fel bod rhieni/gwarchodwyr yn gallu rhannu a chefnogi darllen eu plant.

Os gwyd anawsterau gyda gwaith cartref yna cysylltwch â'r ysgol bob tro.

*Homework plays a part in reinforcing and revising class work. In general, it will be an extension of lesson activities - reinforcing, extending and consolidating aspects of work encountered during the school day. Meaningful homework motivates pupils to work independently.*

*Homework tasks can take a variety of forms: learning by memory, reading, writing, mathematics, research gathering, etc. Parents are asked to assist by giving their children the opportunity and encouragement to study at home.*

*Children with reading books will be encouraged to take them home regularly, as well as their Reading Record books, in order that parents/carers share and support the child's reading.*

*If problems arise with homework, always contact the school.*

## Trefniadau ar gyfer Addysg Grefyddol / Arrangements for Religious Education

Mae Addysg Grefyddol yn elfen orfodol o fewn y cwricwlwm, yn cael ei ddysgu yn ôl cynllun gwaith yr ysgol, yn unol â maes llafur Cytunedig yr Awdurdod. Mae'r dull a gymeradwyir yn lwyf addysgol yn ei amcanion a'i gynnwys a bwriedir ef i gynorthwyo disgyblion i ddeall natur crefydd. Mae Gwasanaethau Crefyddol ysgol yn chwarae rhan ganolog o fewn bywyd yr ysgol ac yn esgor ar brofiad creadigol a dychmygus. Mae Gwasanaethau Dyddiol Cristnogol, boed yn rhai dosbarth, adran neu ysgol gyfan, yn rhan bwysig o drefn a gweithgarwch yr ysgol ac y mae plant o bob oed yn cael eu hannog i gymryd rhan. Y mae hawl gan rieni hepgor i'w plant y ddarpariaeth hon.

*Religious Education is a compulsory element within the curriculum and it is to be taught in accordance with the Authority's Agreed syllabus. The approach recommended is thoroughly educational in its aims and content and is designed to help pupils understand the nature of religion. School Assembly is an important aspect of school life and provides an opportunity for a creative and imaginative experience. School Christian Assemblies, whether they are classroom, department or as a whole school are an important aspect of school life and children are motivated and encouraged to participate. Parents may exercise their rights to withdraw their child / children from religious worship if they chose.*



## Addysg Bersonol a Chymdeithasol / Personal and Social Education

Mae'r rhan yma o'r cwricwlwm yn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion. I gefnogi'r agwedd yma, defnyddia'r ysgol fewnbwn o asiantaethau eraill. Bydd rhaglen gan y nrys ysgol yn hybu agweddu o ABCh. Mae'r ysgol yn cymryd rhan yn Rhaglen Addysg Graidd Cymru Gyfan sydd wedi'i threfnu gan yr heddlu. Fel rhan o'r rhaglen hon fe ddaw heddwais cyswllt yr ysgol i ymweld yn rheolaidd i roi gwersi ar agweddu o'r fframwaith ABCh. Mae gan yr ysgol hefyd Gyngor Ysgol o ddisgyblion a staff a'i ddiben yw galluogi disgyblion i drafod materion sy'n ymwneud â'u hysgol, eu haddysg ac unrhyw fater arall y maent yn ymboeni amdano. Caiff y sylwadau eu trosglwyddo i'r pennath, ac os yn berthnasol, i'r Corff Llywodraethu

*This aspect of the curriculum promotes the personal and social development of its pupils. To support this, the school utilises the support provided by various agencies. The school nurse presents a programme throughout the school which supports aspects of PSE. The school participates in the all Wales Core Programme developed by the police. The school's liaison police officer visits classrooms on a regular basis to present lessons which support aspects of the PSE framework.*

*The school has a School Council of pupils and staff and its aim is to enable pupils to discuss matters relating to their school, their education, and any other matter which causes them concern. The issues raised are relayed to the headteacher, and if appropriate, to the Governing Body.*

## Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol / Pupils with Additional Learning Needs

Bydd gan lawer o blant, rywbryd yn ystod eu gyrrfa ysgol, anghenion addysgol ychwanegol o ryw fath. Bydd yr ysgol yn gwneud ei gorau glas i sicrhau bod addysg briodol yn cael ei darparu i bob plentyn o'r fath.

Mae'r sbectrwm a gynhwysir o fewn anghenion arbennig yn eithriadol eang, o blant a datganiadau swyddogol hyd at blant eithriadol ddisglair sy'n teilyngu gwaith ymestynnol i gadw eu diddordeb a datblygu eu galluoedd.

Gan fod sbectrwm o anghenion arbennig yn yr ysgol, rhaid darparu sbectrwm o ddarpariaeth arbenigol i ateb anghenion y plant. Bwriadwn i bob disgyl elwa'n llawn o'i gyfnod yn Ysgol Gymraeg Pontardawe; rhaid felly darparu'n llawn ar gyfer pob angen a gosod strwythurau yn eu lle i fonitro a darparu ar gyfer yr anghenion hynny.

Polisi cyffredinol yr ysgol yw gweithredu o fewn themâu canolog, traws gwricwlaidd tymhorol. Addysgir plant mewn dosbarthiadau o allu a rhyw cymysg ymhob blwyddyn yn yr ysgol. Darperir cymorth dysgu i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol drwy gynnig cynhaliaeth i'r plant o fewn eu dosbarthiadau arferol.

Mae polisi Addysg Anghenion Ychwanegol yr ysgol yn cydymffurfio â Chod Ymarfer yr Awdurdod Addysg leol a'r Llywodraeth. Mae'r polisi yn cael ei adolygu'n flynyddol.

*Many children, at some stage of their school careers, will have additional learning needs of some kind. The school will ensure that the appropriate education is provided for all such children.*

